# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 21AIN MEHEFIN, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda,**

**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2017)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Berwyn Parry Jones
Edgar Wyn Owen
Gruffydd Williams
Annwen Hughes
Linda Morgan
Catrin Wager
Aled Wyn Jones
Dafydd Owen
Gethin Glyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick
Kevin Morris Jones
Mike Stevens
Keith Jones
Nigel Pickavance

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Owain Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 6. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14.3.17 fel rhai cywir

## 7. MONITRO PERFFORMIAD

I wahodd Aelodau i fynegi diddordeb ar gyfer mynychu cyfarfodydd monitro perfformiad.

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
# 14 MAWRTH 2017

**YN BRESENNOL:** Dilwyn Morgan (Is Gadeirydd)

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eric M. Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Angela Russell, Glyn Thomas a Gruffydd Williams

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Wyn Williams (Rheolwr Amgylchedd)

b) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

c) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet), a Gwyn Morris Jones ( Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau dros y 5 mlynedd diwethaf ac am gefnogaeth Arwel Ellis Jones i'r Pwyllgor - dymunwyd ymddeoliad hapus iddo. Croesawyd y Cynghorydd Tudor Owen yn ôl ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Louise Hughes, Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts a Mike Stevens

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 01 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn diweddaru'r Pwyllgor ar yr hyn oedd wedi ei weithredu ers i'r Aelod Cabinet gyflwyno adroddiad ym Medi, 2017 yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r bwriad o adolygu a pharatoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i Wynedd. Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol yn egluro'r drefn a'r camau sydd yn gosod arweiniad ynglŷn â gofynion statudol ac atodol.

Tynnwyd sylw at yr holiadur drafft oedd wedi ei atodi yn yr adroddiad. Pwrpas yr holiadur, oedd wedi ei lunio gyda chefnogaeth y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, oedd casglu barn y cyhoedd a charfanau penodol, am Hawliau Tramwy. Pwysleisiwyd hefyd y byddai'r Cynllun yn cael ei baratoi ar y cyd gydag Awdurdod Y Parc cenedlaethol (Eryri) ac fe amlygwyd yr egwyddorion cydweithio oedd wedi eu llunio. Gyda 3500km o rwydwaith angen ei asesu cydnabuwyd bod y dasg yn un anodd ac felly yn ddibynnol ar gefnogaeth eraill.

b) Mewn ymateb i'r holiadur, awgrymwyd yr angen i gynnwys blwch 'plant' yng nghwestiwn C5 'Pa rai o'r canlynol fyddech yn mynd efo chi?'

c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod diffyg arwyddion ar lwybrau
- Rhaid bod yn ymwybodol o broblemau sydd yn codi gyda thir feddianwyr. Awgrymwyd bod angen pwerau i sicrhau nad yw un person yn cael effaith
- Bod angen sicrhau bod yr ANHE ac Uned Cefn Gwlad yn cyfrannu at y Cynllun
- Bod mwy o fuddsoddiad mewn llwybrau mynyddig ac arfordirol
- Rhaid ystyried mabwysiadu polisi i warchod y tir rhwng llwybrau arfordirol a'r môr a sicrhau bod pobl a thirfeddianwyr yn deall eu sefyllfa
- Diffyg adnoddau yn sicr o godi pryderon cynnal a chadw llwybrau
- Grantiau yn allweddol i'r gwaith cynnal a chadw
- Awgrym i gydlynu gwirfoddolwyr a 'r gwasanaethau ieuenctid - rhaid magu parch yn y gymuned at asedau lleol
- Awgrym i hybu'r ap pathwatch ymysg staff - effeithiol i rannu gwybodaeth

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â grantiau derbyniwyd bod grantiau gwahanol ar gyfer cynnal gwelliannau, ond yr amserlen ariannol yn mynd i orfodi rhaglen o flaenoriaethau. Amlygwyd bod categorïau 1 - 5 wedi eu llunio i reoli'r adnoddau ac awgrymwyd bod angen adolygu'r categorïau hyn. Amlygwyd hefyd bod bwriad gan Lywodraeth Cymru i adolygu deddfwriaeth hawliau tramwy ac felly bydd ymgynghoriad gyda chynigion ymarferol yn debygol o gael ei gyflwyno yn y misoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Rhoddwyd cefnogaeth i'r Adran barhau gyda'r meysydd gwaith sydd i'w gweithredu dros y 6 mis nesaf, sef**

- **Parhau i gasglu gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith a chychwyn y gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth.**
- **Cydweithio gyda APCE i adnabod anghenion adnoddau.**
- **Cydweithio gyda'r Uned Cyfathrebu / Ymgysylltu i adnabod y dulliau gorau o ymgysylltu i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf phosib. Cwblhau'r holiadur a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mai a Mehefin.**
- **Parhau i werthuso'r CGHT blaenorol.**

- **Edrych sut mae'r CGHT yn gorgyffwrdd a deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau eraill.**
- **Tuag at ddiwedd y cyfnod (oddeutu mis Medi) dechrau ar y dasg o gyrraedd casgliadau yn seiliedig ar y wybodaeth fydd i law a llunio cyfeiriad ar gyfer y CGHT newydd.**

**b) Dylid ceisio mwy o adnoddau ar gael ond o fewn cyfyngiadau, croesawu syniadau creadigol / defnydd i dechnoleg**
**c) Bod angen ystyried cynyddu pwerau Cyngor Gwynedd**
**ch) Gwneud cais i'r Aelod Cabinet gyflwyno adroddiad cynnydd mewn oddeutu 6 mis.**

## 6. ARGYMHELLION ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU TREFNIADAU CYNLLUNIO

a) Cyflwynwyd adroddiad yr ymchwiliad craffu trefniadau cynllunio i'r Aelod Cabinet. Atgoffwyd pawb beth oedd cefndir y briff a rhoddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Cynghorydd Eric M Jones, Cadeirydd yr ymchwiliad.

b) Ategodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r aelodau am y gwaith da a wnaed o fewn cyfnod byr. Trafodwyd yr argymhellion fesul un ac fe nodwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelod Cabinet:
- Croesawyd yr awgrym am yr angen i aelodau ynghyd ag aelodau cynghorau cymuned dderbyn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol (wedi iddo ei gymeradwyo)
- Y byddai adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth yn cael ei weithredu pan fydd yr amserlen yn caniatáu
- Derbyn yr angen i gynnwys / tynnu sylw penodol i faterion economaidd o fewn adroddiadau Pwyllgor Cynllunio

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Awgrym y dylid ystyried cyfarch amserlen, rhannu ymarfer da a sylwadau cynllunio addas fel rhan o hyfforddiant cynghorau cymuned
- Awgrym y dylid cynnwys sylwadau calonogol ynghyd a niferoedd cwynion
- Croesawu'r argymhelliad i gydweithio a hwyluso trafodaethau gydag uned gwaith rheolaeth adeiladu'r Cyngor

**PENDERFYNWYD, derbyn yr adroddiad, a gwblhwyd mewn amser cymharol fyr, cymeradwyo'r argymhellion a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion**

## 7. YMCHWILIAD CRAFFU GORFODAETH STRYD- DIWEDDARIAD

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar y gwaith oedd wedi ei weithredu ar yr argymhellion a gyflwynwyd ym Medi 2016. Amlygwyd bod yr uned wedi ei hailstrwythuro gyda gwaith y tîm wedi ei ail flaenoriaethu i adlewyrchu lleihad yn nifer staff yr Uned. Nodwyd bod y toriadau wedi bod yn anodd, ond bod y staff wedi ymateb yn dda. Rhoddwyd diweddariad ar yr holl argymhellion a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnal ymchwiliad craffu o'r newydd i geisio datrys y dulliau gorau o symleiddio'r drefn o rannu gwybodaeth am gasgliadau sbwriel.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- bod y 'Gangiau Cymunedol' i gyd wedi mynd o ganlyniad i Her Gwynedd

- Lleihad mewn gwasanaethau ac felly derbyn bod angen cyflwyno dulliau gwahanol o ymdrin â gorfodaeth stryd
- Y dylai pobl sydd yn taflu sbwriel a baeddu strydoedd dalu dirwy i gynnal gwasanaethau
- Y Rhybudd o Gynnig a fu gerbron y Cyngor am y rhai sydd yn creu llanast trwy osod ei sbwriel allan ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir a'r angen i edrych ar hynny ymhellach
- Rhaid addysgu pobl ac ystyried pobl fregus os am gyflwyno trefniadau newydd
- Cefnogaeth gan Cadw Cymru'n Daclus a Swyddogion y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn e.e., ymgyrchoedd casglu sbwriel cymunedol
- Angen ystyried myfyrwyr lefel 'A' sydd yn cwblhau BAC i wirfoddoli ynghyd a Chlybiau Ieuenctid (*Guides, Brownies a Rainbows*) sydd yn cwblhau bathodynnau gwirfoddoli. Awgrym hefyd i ddefnyddio'r Gwasanaeth Prawf.
- Rhaid lliniaru materion Iechyd a Diogelwch i hwyluso trefniadau gwirfoddolwyr
- Croesawu'r gwaith sydd yn cael ei wneud yn yr ysgolion
- Pwysig codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth yn amserol os am gyflwyno newidiadau

b) Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau annog pobl i fanteisio ar ymgyrchoedd Cadw Cymru'n Daclus

Diolchwyd am y wybodaeth ac anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Peter Simpson, Rheolwr Gorfodaeth Stryd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod y Pwyllgor yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei weithredu hyd yma**
- **Bod yr adran yn paratoi ymlaen llaw ar gyfer cyfathrebu gydag Aelodau a'r cyhoedd cyn i'r cyfnod treialu gyda cwmni allanol ddechrau**
- **Bod angen rhannu newyddion da a pharhau gyda'r gwaith o godi ymwybyddiaeth**
- **Cynnwys y cais am ymchwiliad craffu ar orfodaeth pan fo rhywun yn mynd yn groes i'r trefniadau casglu ar restr o ymchwiliadau posib er ystyriaeth gan y Cyngor newydd**